Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymru Greadigol
Creative Wales

Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 43/2025

Dyddiad cyhoeddi: 29/05/2025

# Adroddiad Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2024




Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN 978-1-83715-785-3

Adroddiad Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2024

Saadiah Hood, Strategic Research and Insight

Adroddiad Ymchwil Llawn: Creative Wales Industry Survey 2024 report. Adroddiad Terfynol
Caerdydd: Llywodraeth Cymru
Rhif adroddiad GSR: 43/2025.
Are gael yn: https://www.llyw.cymru/arolwg-diwydiant-cymru-greadigol-2024

Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Delweddau gan GDC brochure - The Passing Place – Bird in Sky/ Le Pub, Newport – Theodore Swaddling/ Sker Ritual – Wales Interactive/ Brides - Neon Films, ie ie Productions, Rosamont Films, Ffilm Cymru Wales/ Set Sail! Arena – Dragon Scale Studios – Arddangosiad Cymru Greadigol/ Hawlfraint y Goron.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Sophie Mathias
Ymchwilydd y Sector
Cymru Greadigol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost CymruGreadigol@llyw.cymru

**Cynnwys** **Tudalen**


1. Blaenoriaethau busnes ..... 2
2. Cefndir a methodoleg ..... 4
3. Proffil busnes ..... 8
4. Cyflogaeth ..... 10
5. Uchelgeisiau busnes ..... 11
6. Sgiliau a recriwtio ..... 15
7. Cymru Greadigol ..... 25
8. Dulliau eraill ..... 29
9. Galluoedd Iaith Gymraeg ..... 31
10. Goblygiadau i Cymru Greadigol ..... 33
11. Holiadur Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2024 ..... 36
12. Tablau fesul rhanbarth a sector ..... 48

# Blaenoriaethau busnes

## Trosolwg o'r arolwg

Roedd gan arolwg 2024 808 o ymatebwyr, cynnydd o 639 yn 2023, gan adlewyrchu'r cyfranogiad uwch a'r ymgysylltiad cryfach yn yr ymchwil. Mae'r sector Sgrin wedi cael y cynnydd mwyaf o ran cyfranogiad, tra mae'r sectorau Cerddoriaeth a Chyhoeddi wedi bod â chynrychiolaeth is nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn berchnogion busnesau (42%), gyda 26% yn hunangyflogedig, 19% yn gyflogedigion a 13% yn weithwyr llawrydd. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn parhau i fod yn gymysg fel yn y blynyddoedd blaenorol, gyda 15% yn rhugl yn y Gymraeg (3% o bwyntiau canran yn is nag yn 2023), roedd 8% yn gallu siarad eithaf tipyn a 20% gyda hyfedredd cyfyngedig. Fesul rhanbarth, daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion o dde-ddwyrain Cymru (58%), yn cael ei ddilyn gan dde-orllewin Cymru (17%), gogledd Cymru (16%) a chanolbarth Cymru (9%).

## Trosiant a pherfformiad ariannol

Mae tueddiadau trosiant busnes yn parhau heb newid i bob pwrpas oddi ar 2023, gyda 27% o fusnesau'n adrodd cynnydd mewn trosiant, a 30% yn profi gostyngiad a 43% yn gweld dim newid o'i gymharu gyda'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae costau cynyddol ac argaeledd gwaith yn parhau i fod yn brif bryderon, yn arbennig ar gyfer y sectorau Cerddoriaeth a Sgrin, tra bod y sectorau Cyhoeddi a Digidol wedi adrodd mwy o sefydlogrwydd ariannol.

## Hyder mewn rhagolygon busnes

Mae hyder busnesau ynghylch bod yn broffidiol yn gymysg. Tra bo 42% o fusnesau'n teimlo'n hyderus neu'n hyderus iawn, mae 23% yn mynegi pryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol, sy'n ychydig o gynnydd mewn ansicrwydd oddi ar 2023. Mae hyder yn amrywio fesul sector, gyda busnesau Digidol yn fwyaf hyderus, a'r sectorau Cyhoeddi a Cherddoriaeth yn adrodd lefelau is o hyder.

Mae gweithwyr llawrydd yn parhau i wynebu ansicrwydd, gyda 63% yn ystyried gadael y proffesiwn oherwydd ansicrwydd y swydd, cystadleuaeth a chyfyngiadau ariannu. Mae hyn yn tynnu sylw at yr heriau sy'n parhau o ran sicrhau gwaith cynaliadwy o fewn yr economi lawrydd.

## Sgiliau a recriwtio

Mae 23% o fusnesau'n adrodd am fwlch sgiliau, yn arbennig felly mewn sgiliau penodol i'r sector (37%) a sgiliau technoleg (27%). Mae heriau recriwtio'n parhau, gyda 16% o fusnesau'n cael trafferthion i lenwi rolau allweddol, yn arbennig felly yn y meysydd creadigol a thechnegol. Mae'r galw am sgiliau penodol iawn yn broblem sy'n ailgodi, gan adlewyrchu heriau'r gweithlu ar draws sawl sector.

Mae gweithwyr llawrydd yn adrodd am anawsterau cyflogaeth, gyda 69% yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith, sy'n gynnydd oddi ar 2023. Mae'r heriau hyn yn fwyaf amlwg yn y sectorau Sgrin a Digidol.

## Cymorth ariannol a chefnogaeth Cymru Greadigol

Mae ymwybyddiaeth o Cymru Greadigol wedi cynyddu i 67% yn 2024 (i fyny o 6 o bwyntiau canran o 2023) gyda 19% o ymatebwyr yn dweud bod cyfathrebu yn hynod o effeithiol. Tra bod y busnesau hynny sy'n cael mynediad at grantiau Cymru Greadigol / Llywodraeth Cymru yn parhau'n debyg i ffigyrau 2023 (9%, i fyny o 8%), wnaeth y mwyafrif (76%) ddim derbyn cefnogaeth ariannol, sydd hefyd yn gyson gyda blynyddoedd blaenorol.

# Cefndir a methodoleg

## Beth yw Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol?

Mae Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol yn astudiaeth flynyddol sy’n archwilio tueddiadau, heriau a chyfleoedd o fewn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Bellach yn ei thrydedd flwyddyn, mae arolwg 2024 yn cynnwys busnesau, gweithwyr llawrydd a chyflogedigion o sectorau blaenoriaeth Cymru Greadigol: Cerddoriaeth, Sgrin, Digidol a Chyhoeddi. Mae’r canfyddiadau’n darparu trosolwg cynhwysfawr o dirwedd sy’n newid o fewn y sector, gan fod yn sail i benderfyniadau polisi sy’n cefnogi twf mewn diwydiant.

## Amcanion yr arolwg

- Deall tueddiadau ar draws y sector mewn perfformiad busnes, cyflogaeth a datblygu’r gweithlu
- Asesu heriau sy’n gysylltiedig gydag ariannu, recriwtio a bylchau sgiliau o fewn y diwydiant
- Gwerthuso ymwybyddiaeth a chanfyddiadau ynghylch Cymru Greadigol a’i fentrau cefnogi
- Casglu adborth ynghylch sut y gall Cymru Greadigol wasanaethu’r sectorau creadigol yn well yng Nghymru

## Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

Cafodd yr arolwg ei gomisiynu gan Cymru Greadigol a’i gynnal gan Strategic Research and Insight (SRI), asiantaeth ymchwil annibynnol sydd wedi’i lleoli yng Nghaerdydd. Defnyddiwyd gwahanol ddulliau er mwyn mwyhau cyfraddau ymateb a sicrhau bod canfyddiadau’r diwydiant wedi eu cwmpasu mewn modd cynhwysfawr. Er mwyn gwella cyfraddau ymateb ac ymgysylltiad rhanddeiliaid allweddol, defnyddiwyd dau ddull arolwg:

- **Arolwg dros y ffôn**, gan dargedu’r diwydiannau creadigol yng Nghymru
- **Arolwg ar-lein**, gan dargedu busnesau a gweithwyr llawrydd yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru, wedi eu dosbarthu drwy amrywiol sianeli

Defnyddiodd yr arolwg dros y ffôn gronfa ddata a gafwyd gan frocer data wedi’i gymeradwyo.

Roedd y gronfa ddata’n cynnwys 2,235 o fusnesau, gyda manylion yn cynnwys:

- Enw'r busnes
- Cyfeiriad/ côd post
- Rhif ffôn
- Rhif cofrestru'r cwmni
- Nifer y gweithwyr (lle mae’n berthnasol)
- Enw cyswllt, rôl/ swydd
- Gweithgarwch busnes

- Categori Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU (SIC 2007) a disgrifiad

Mae'r dull samplo yn cynnwys crynodeb o'r busnesau y cysylltwyd â hwy dros y ffôn ym mhob sector a'r cyfanswm nifer o ymatebion a gwblhawyd.

## Dosbarthiad yr arolwg

Cafodd arolwg ar-lein ei gynnal ochr yn ochr â'r arolwg dros y ffôn. Cafodd dolen i'r arolwg ei dosbarthu drwy gysylltiadau Cymru Greadigol, a bu i SRI fynd at unigolion perthnasol o fewn y diwydiant yn uniongyrchol er mwyn ehangu cyfranogiad. Cafodd y ddolen ei rhannu ar draws sawl sianel er mwyn annog ymgysylltiad ehangach ar draws sectorau. Er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ranbarthol ac ar draws sectorau, cafodd ymatebwyr eu recriwtio drwy:

- Rwydweithiau sector presennol Cymru Greadigol
- Y cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd e-bost
- Estyn allan at fusnesau a gweithwyr llawrydd yn uniongyrchol

## Dull samplo

Roedd y sampl yn cwmpasu'r pedwar rhanbarth yng Nghymru, gogledd, canolbarth, de-orllewin a de-ddwyrain. Roedd maint targed y sampl yn 500 o gyfweliadau, ond cafwyd mwy na hyn, gan gyflawni cyfanswm o 808 o ymatebion, a hynny dros y ffôn wedi'u cynnal gan SIR, ac ymatebion arolwg wedi'u cwblhau ar-lein drwy gydol mis Tachwedd 2024 a mis Ionawr 2025. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol oddi ar y flwyddyn flaenorol, lle cyflawnwyd 639 o ymatebion.

Mae'r arolwg yn cynnwys busnesau a gweithwyr llawrydd sy'n cynrychioli'r prif sectorau sy'n cael eu cefnogi gan Cymru Greadigol, sy'n rhan o ddiffiniad Cymru Greadigol o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

| Sector Cymru Greadigol | Diwydiannau creadigol y cysylltwyd â hwy dros y ffôn[1] | Cyfanswm nifer yr ymatebion a gwblhawyd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Dros y ffôn | Ar-lein | Cyfanswm ymatebwyr |
| **Cerddoriaeth** | 390 | 70 | 63 | 133 |
| **Sgrin** | 599 | 122 | 157 | 279 |
| **Digidol** | 611 | 163 | 51 | 214 |
| **Cyhoeddi** | 635 | 140 | 42 | 182 |
| **Cyfanswm** | **2,235** | **495** | **313** | **808** |

1 Data busnes y diwydiannau creadigol yng Nghymru, wedi'i gael gan frocer data wedi'i gymeradwyo.

## Pynciau'r arolwg

Darparodd Cymru Greadigol ystod o wahanol bynciau i SRI yn cwmpasu meysydd megis:

- Proffil busnes
- Cyflogaeth
- Uchelgeisiau busnes
- Sgiliau a recriwtio
- Ymwybyddiaeth o Cymru Greadigol
- Y Gymraeg

Roedd yr holiadur olaf yn cynnwys 46 cwestiwn. Cafodd mathau o gwestiynau caeëdig eu defnyddio'n fwyaf cyffredin a hynny ar gyfer dadansoddiad meintiol, ond roedd chwe chwestiwn yn benagored, gan alluogi i ymatebwyr gael cyfle i gynnig mewnwelediadau mwy dwfn i'r diwydiant.

## Beth mae'r adroddiad hwn yn ei gwmpasu?

Nod yr adroddiad hwn yw darparu Cymru Greadigol gyda dealltwriaeth fanwl o sefyllfa bresennol y sector, cefnogi gyda gwella twf busnes, ariannu cyfleoedd a datblygu sgiliau. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu:

- Blaenoriaethau busnes
- Cefndir a methodoleg
- Prif ganfyddiadau
- Goblygiadau i Cymru Greadigol

Yn ogystal, darperir y wybodaeth atodol yma:

- Darperir croesdabliadau ar gyfer adborth meintiol ar wahân yn ôl rhanbarth, sector a math o fusnes
- Data amrwd mewn fformat Excel
- Mewnwelediadau ansoddol o ymatebion penagored i gyd-fynd gyda data meintiol

**Nodyn ar ddehongliad:**
Mae'r dyfyniadau gan weithwyr llawrydd yn yr adran hon yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i rai o'r heriau a wynebir o fewn y sector. Fodd bynnag, maent yn adlewyrchu profiadau grŵp cymharol fach o ymatebwyr. Er bod y safbwyntiau hyn yn bwysig, ni ddylid eu hystyried yn gynrychioladol o'r holl weithwyr llawrydd yn y diwydiannau creadigol. Mae cyfraddau ymateb a chynnwys y sector yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, sy'n gallu dylanwadu ar ganlyniadau a chymariaethau.

## Deall y canrannau yn yr adroddiad hwn

Mae’r holl ganrannau a’r ffigyrau a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn yn deillio o’r cyfanswm cyfunol o ymatebwyr arolygon dros y ffôn ac ar-lein. Defnyddiwyd adran gyntaf yr holiadur er mwyn hidlo ymatebwyr a sicrhau mai dim ond y rhai cymwys o’r diwydiannau creadigol oedd yn cael eu cynnwys. Mae’r adroddiad yn bennaf yn trafod canfyddiadau o gwestiynau C9 i C27.

Mae’n bwysig bod yn ofalus wrth ddadansoddi is-grwpiau llai, gan fod rhai cwestiynau wedi derbyn llai o ymatebion oherwydd cyfeiriadau’r arolwg. Mewn achosion o’r fath, cyfeirir at yr union nifer o ymatebwyr yn hytrach na chanrannau er mwyn cynnal uniondeb y data.


Wrth gymharu canfyddiadau rhwng 2023 a 2024, dylid ystyried y gwahaniaethau mewn maint sampl a chynrychiolaeth o’r sector. Mae’r 808 o ymatebion yn 2024 yn cynrychioli cynnydd sylweddol o 2023, a all ddylanwadu ar gymariaethau uniongyrchol blwyddyn ar flwyddyn.

# Proffil busnes

## Dosbarthiad y sampl

Dechreuodd y gwaith ymchwil gyda chwestiynau sgrinio yn yr arolwg dros y ffôn a'r arolwg ar-lein er mwyn sicrhau mai dim ond ymatebwyr cymwys oedd yn gweithio o fewn sectorau Cymru Greadigol oedd yn cael eu cynnwys. Roedd gan arolwg 2024 ddosbarthiad ehangach ar draws y sectorau o'i gymharu gyda blynyddoedd blaenorol, gan wella'r gynrychiolaeth a galluogi mewnwelediadau mwy cadarn i dueddiadau sector.

Mae'r tablau isod yn dangos dosbarthiad yr ymatebion fesul sector a rhanbarth:




| Sector | Ymateb | | Nifer a gyflogwyd[2] | |
|---|---|---|---|---|
| **Cerddoriaeth** | 133 | 16% | 9,700 | 29% |
| **Sgrin** | 279 | 35% | 6,000 | 18% |
| **Digidol** | 214 | 26% | 10,900 | 32% |
| **Cyhoeddi** | 182 | 23% | 7,200 | 21% |

| Rhanbarth[3] | Ymateb | | Nifer a gyflogwyd[4] | |
|---|---|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | 129 | 16% | 329,900 | 23% |
| **Canolbarth Cymru** | 73 | 9% | 93,300 | 6% |
| **De-ddwyrain Cymru** | 470 | 58% | 720,900 | 49% |
| **De-orllewin Cymru** | 136 | 17% | 321,100 | 22% |

## Nodweddion busnes

Wrth archwilio'r nodweddion busnes, mae Caerdydd yn parhau i fod yn brif hwb, gyda 28% o fusnesau gafodd eu holi wedi eu lleoli yn y ddinas. Yn ogystal, mae 42% o'r holl ymatebwyr yn berchnogion neu'n gyfarwyddwyr busnesau, gan ddynodi presenoldeb entrepreneuraidd cryf o fewn sampl yr arolwg. Mae'r sector wedi hen sefydlu, gyda 73% o fusnesau a holwyd wedi bod yn masnachu am dros ddegawd.

Strwythur Cyfreithiol:

- Mae 39% yn gwmnïau preifat cyfyngedig (LTDau)

2 Ffynhonnell: Ceisiadau ystadegol ar hap: 24 Hydref hyd 1 Tachwedd 2024 | LLYW.CYMRU

3 Noder: Mae ffigyrau cyflogaeth rhanbarthol yn cynrychioli'r cyfanswm cyflogaeth ar draws pob diwydiant, gan nad yw data sector benodol ar gael ar lefel ranbarthol oherwydd y maint samplau bach.

4 Ffynhonnell: Busnes, yr economi a'r farchnad lafur, StatsCymru

- Mae 35% yn berchnogion unigol
- Mae 55% yn feicro-busnesau gyda 1-9 gweithiwr

## Proffil amrywiol

Mae arolwg 2024 yn parhau i dynnu sylw at agweddau pwysig o amrywiaeth o fewn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae dynion yn cynrychioli 59% o ymatebwyr, menywod yn 40%, ac unigolion anneuaidd yn 1% Mae hyn yn alinio'n fras gydag ystadegau swyddogol 2023[5], sy'n dynodi bod gwrywod yn parhau i fod yn gyfran fwy o weithlu'r sector creadigol (oddeutu 65%) o'i gymharu gyda menywod (35%).

Mae amrywiaeth ethnig yn parhau yr un fath gan mwyaf gyda 92% yn uniaethu'n Wyn, o'i gymharu gyda 95% yn 2023. Mae'r rhaniadau cenedlaethol hefyd yn parhau i fod yn gyson, gyda 55% yn uniaethu fel Cymro/Cymraes a 29% fel Prydeinig neu Wyddelig. Mae'r mewnwelediadau hyn yn awgrymu bod gwaith i'w wneud o hyd i wella'r gynrychiolaeth ar draws gwahanol grwpiau demograffig o fewn y sector.

5 Ffynhonnell: [Ceisiadau ystadegol ar hap: 24 Hydref hyd 1 Tachwedd 2024 | LLYW.CYMRU]

# Cyflogaeth

## Trosolwg o’r gweithlu a holwyd

Mae’r dadansoddiad canlynol yn cyflwyno data ar gyfansoddiad y gweithlu fel sy’n cael ei adrodd gan berchnogion busnesau a chyfarwyddwyr. Mae’n cynnig mewnwelediadau i dueddiadau cyflogaeth o fewn y diwydiannau creadigol.


Mae’r rhan fwyaf o fusnesau’n cyflogi llai na 10 person ym mhob categori o staff. Yn fwyaf cyffredin, roedd busnesau’n gweithio gyda 1-4 o staff llawn amser neu ran amser, gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr. Roedd timau maint mwy (20+) yn brin, ac eithrio mewn cyfran fach o fusnesau oedd yn defnyddio gweithwyr llawrydd neu wirfoddolwyr.

Yn 2024, roedd y gyfran o’r busnesau oedd yn cyflogi 1-9 aelod o staff yn parhau i fod y categori mwyaf ar draws mathau o gyflogaeth, sy’n gyson gyda ffigyrau 2023. Roedd yna hefyd gynnydd mewn busnesau oedd yn cyflogi gweithwyr llawrydd a defnyddio gwirfoddolwyr o’i gymharu gyda’r flwyddyn flaenorol, gan ddynodi symudiad o fewn strwythur y gweithle.

Mae canran y prentisiaid a’r gweithwyr dan hyfforddiant yn parhau i fod yn debyg, sydd, o bosib, yn adlewyrchu galw cyson gan y cyflogwr am lwybrau cyflogaeth wedi’u strwythuro.

# Uchelgeisiau busnes

**C10 "Beth yw eich blaenoriaethau busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod? Dewiswch eich tri ateb gorau yn unig."**





| Y 3 uchelgais uchaf fesul rhanbarth yw: | | | |
|---|---|---|---|
| **Gogledd (129)** | **Canolbarth (73)** | **De-ddwyrain (470)** | **De-orllewin (136)** |
| Cynnydd mewn bod yn broffidiol (53%) | Cynnydd mewn bod yn broffidiol (66%) | Cynnydd mewn bod yn broffidiol (54%) | Cynnydd mewn bod yn broffidiol (45%) |
| Cynnal y statws presennol/ cadw i fynd fel ag y mae pethau (25%) | Gwella cyfleoedd i farchnata (26%) | Cynnal y statws presennol/ cadw i fynd fel ag y mae pethau (26%) | Cynnal y statws presennol/ cadw i fynd fel ag y mae pethau (30%) |
| Gwella cyfleoedd i farchnata (24%) | Cynnal y statws presennol/ cadw i fynd fel ag y mae pethau (23%) | Gwella cyfleoedd i farchnata (25%) | Gwella cyfleoedd i farchnata (28%) |

| Y 3 uchelgais uchaf fesul sector yw: | | | |
|---|---|---|---|
| **Cerddoriaeth (133)** | **Sgrin (279)** | **Digidol (214)** | **Cyhoeddi (182)** |
| Cynnydd mewn bod yn broffidiol (53%) | Cynnydd mewn bod yn broffidiol (53%) | Cynnydd mewn bod yn broffidiol (56%) | Cynnydd mewn bod yn broffidiol (51%) |
| Gwella cyfleoedd i farchnata (32%) | Rhwydweithio (25%) | Gwella cyfleoedd i farchnata (27%) | Cynnal y statws presennol/ cadw i fynd fel ag y mae pethau (31%) |
| Rhwydweithio (26%) | Cynnal y statws presennol/ cadw i fynd fel ag y mae pethau (25%) | Cynnal y statws presennol/ cadw i fynd fel ag y mae pethau (25%) | Gwella cyfleoedd i farchnata (25%) |

## Prif flaenoriaethau busnes

Yn 2024, roedd cynyddu pa mor broffidiol oeddent (53%) a gwella cyfleoedd i farchnata (25%) yn parhau i fod yn brif flaenoriaethau ar gyfer busnesau gan alinio gyda blynyddoedd blaenorol. Mae rhwydweithio (20%) a chynaliadwyedd (14%) hefyd yn feysydd ffocws allweddol. Mae tyfu'r gweithlu (14%) wedi dod yn llai o flaenoriaeth, gan ostwng o 21% yn 2023.

| Y 3 uchelgais uchaf fesul Math o Fusnes yw: | | | |
|---|---|---|---|
| **Hunangyflogedig (209)** | **Llawrydd (100)** | **Gweithiwr (157)** | **Cyflogwr (342)** |
| Cynnydd mewn bod yn broffidiol (46%) | Cynnydd mewn bod yn broffidiol (47%) | Cynnydd mewn bod yn broffidiol (46%) | Cynnydd mewn bod yn broffidiol (63%) |
| Gwella cyfleoedd i farchnata (29%) | Cynnal y statws presennol/ cadw i fynd fel ag y mae pethau (28%) | Cynnal y statws presennol/ cadw i fynd fel ag y mae pethau (27%) | Gwella cyfleoedd i farchnata (27%) |
| Cynnal y statws presennol/ cadw i fynd fel ag y mae pethau (29%) | Gwella cyfleoedd i farchnata (27%) | Gwella cyfleoedd i farchnata (23%) | Cynnal y statws presennol/ cadw i fynd fel ag y mae pethau (24%) |




## Tueddiadau trosiant a newidiadau

Tra mae bod yn broffidiol yn parhau i fod yn brif ffocws, mae tueddiadau trosiant yn 2024 yn dynodi sefydlogrwydd cymharol:

- Adroddodd 27% o fusnesau gynnydd mewn trosiant, o'i gymharu gyda 25% yn 2023.
- Profodd 30% ostyngiad, o'i gymharu gyda 27% yn 2023
- Dywedodd 43% nad oeddent wedi gweld unrhyw newid, o'i gymharu gyda 48% yn 2023

## Ffactorau sy'n dylanwadu ar newid mewn trosiant

Fe wnaeth busnesau oedd yn profi amrywiadau o ran trosiant adnabod y 3 brif ffactor ganlynol.

Rheswm dros gynnydd mewn trosiant:

- Faint o fusnes/ gwaith sydd ar gael (45%)
- Mwy o ymwybyddiaeth o'r busnes/ fy ngwaith (34%)
- Nifer y cwsmeriaid neu gyfranogiad yn y sector (16%)

Rheswm dros leihad mewn trosiant:

- Faint o fusnes/ gwaith sydd ar gael (54%)
- Traweffeithiau o'r cynnydd mewn costau byw (43%)
- Faint o arian cyhoeddus sydd ar gael (28%)

Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at bwysau ariannol parhaus, gyda busnesau'n parhau i flaenoriaethu marchnata, rhwydweithio a datblygu busnes fel prif feysydd ffocws.

Ymysg busnesau sy'n adrodd am leihad mewn trosiant, roedd y dosbarthiad fel a ganlyn:

- Profodd 11% ostyngiad o 1-20%
- Gwelodd 7% ostyngiad o 21-40%
- Adroddodd 4% am ostyngiad o 41-60%
- Profodd 2% ostyngiad o 61-80%
- Adroddodd 1% ostyngiad o 81-100%
- Roedd 4% yn ansicr

Ar gyfer busnesau oedd yn adrodd am gynnydd mewn trosiant:

- Gwelodd 15% gynnydd o 1-20%
- Profodd 5% gynnydd o 21-40%
- Adroddodd 2% gynnydd o 41-60%
- Gwelodd llai na 1% gynnydd o 61-100%
- Roedd 3% yn ansicr


Mae'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at gynnydd mewn trosiant yn 2024 yn parhau yn debyg i rai yn 2023, gydag argaeledd busnes/ gwaith (45%) yn ffactor arweiniol, wedi'i ddilyn gan ymwybyddiaeth gynyddol o wasanaethau (34%) a'r nifer o ddefnyddwyr neu gyfranogiad yn y sector (16%). Mae traweffaith Covid-19 (7%) yn parhau i fod yn ffactor ond mae wedi dirywio mewn pwysigrwydd o'i gymharu gyda blynyddoedd blaenorol.

Mae'r prif gyfranwyr at ostyngiad mewn trosiant yn cynnwys llai o fusnes/gwaith ar gael (54%), costau byw cynyddol (43%), a llai o arian cyhoeddus (28%). Tra mae traweffaith Brexit (2%) a

newidiadau mewn ymddygiad y defnyddiwr (1%) yn parhau i fod yn isel, mae heriau megis pwysau o ran costau ac ansicrwydd economaidd yn parhau i effeithio ar berfformiad busnesau.

Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at y ffaith fod heriau ariannol yn parhau, yn arbennig felly o safbwynt sicrhau gwaith cyson ac addasu i bwysau costau a hynny er gwaetha'r ffaith fod rhai busnesau yn gweld twf. Gallai mentrau cefnogi yn y dyfodol ganolbwyntio ar helpu busnesau i ddelio gydag ansefydlogrwydd ariannol, gan wella mynediad at ariannu a chryfhau ymdrechion i farchnata a rhwydweithio er mwyn rhoi hwb i weledrdd a gwytnwch y busnes.

## Gwahaniaethau fesul sector yn 2024





## Lefelau hyder fesul sector

Mae lefelau hyder yn 2024 yn amrywio ar draws gwahanol sectorau, gyda'r sector Digidol yn parhau i ddangos y lefel uchaf o hyder wrth redeg busnes proffidiol, tra mae'r sectorau Cerddoriaeth a Sgrin yn adrodd am lefelau is o hyder. Mae'r patrwm hwn yn parhau i fod yn gyson fwy neu lai gyda 2023, er bod gwahaniaethau'n bodoli ar draws y sectorau creadigol. O'i gymharu gyda 2023, fe wnaeth cyfanswm y lefel hyder (4 neu 5) barhau'n sefydlog ar y cyfan (42% ar gyfer y ddwy flynedd). Fodd bynnag, mae rhai symudiadau penodol o fewn y sector wedi digwydd:

- Gwelodd y sector Digidol rywfaint o ostyngiad yn y rhai oedd yn teimlo'n hyderus iawn (30% yn 2023) ond mae'n parhau i fod y sector mwyaf hyderus.
- Fe wnaeth llai o ymatebwyr yn y sector Cerddoriaeth osod eu hyder ar lefel 2 (23% yn 2024), gan ddynodi mymryn o gynnydd mewn hyder.
- Mae hyder yn y sector Cyhoeddi wedi gwella rhywfaint, gyda llai o ymatebwyr yn diffinio eu hyder fel *heb fod yn hyderus o gwbl* (4% yn 2024, i lawr o 8% yn 2023)

Mae'r canfyddiadau yma'n awgrymu nad yw'r hyder yn gyffredinol wedi lleihau'n sylweddol, ond bod amrywiadau fesul sector yn tynnu sylw at wahanol lefelau o optimistiaeth ar draws y diwydiannau.

## Gwahaniaethau fesul math o fusnes




## Mae hyder cyflogwyr yn parhau i fod yn uwch na gweithwyr llawrydd

Yn 2024, gwelwyd lefelau hyder yn amrywio yn ôl math o fusnes, gyda 27% o gyflogwyr a pherchnogion busnesau yn adrodd eu bod yn teimlo'n hyderus iawn wrth redeg busnes proffidiol (26% yn 2023). Mewn gwrthgyferbyniad, roedd 50% o weithwyr llawrydd yn adrodd am hyder is (gan sgorio 1 neu 2), a chan adlewyrchu pryderon sy'n parhau ynghylch diogelwch ariannol.

## Mynediad cyfyngedig at ariannu

Yn 2024, adroddodd 76% o ymatebwyr nad oeddent yn derbyn unrhyw gefnogaeth o ran nawdd (80% yn 2023). Grantiau Cymru Greadigol/ Llywodraeth Cymru (9%) sy'n parhau i fod y ffynhonnell fwyaf gyffredin o ariannu, yn cael ei ddilyn gan grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru (7%).

Mae mynediad at ariannu yn parhau i fod yn fwy cyfyngedig i weithwyr llawrydd, gyda 70% o fusnesau a 9% o weithwyr llawrydd yn adrodd eu bod wedi derbyn cefnogaeth ariannol. O ystyried bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gyflogwyr, mae'n ddisgwyliedig bod llai o weithwyr llawrydd na busnesau'n cael eu hariannu. Fodd bynnag, mae llawer o weithwyr llawrydd yn mynegi bod anawsterau wrth sicrhau grantiau neu fuddsoddiad, gan dynnu sylw at yr heriau mae'r rhan allweddol yma o'r gweithlu creadigol yn ei wynebu wrth gyrchu adnoddau ariannol.

# Sgiliau a recriwtio


## Gweithgarwch recriwtio yn parhau'n isel

Yn 2024, roedd gweithgarwch recriwtio yn parhau i fod yn gyfyngedig, gyda 64% o fusnesau yn adrodd na fu iddynt recriwtio o gwbl yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, ffigwr sy’n gyson gyda 2023. Ymysg y rhai wnaeth recriwtio, y dulliau mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd oedd:

- Ar lafar (21%)
- Ffynonellau ar-lein (15%)
- Cyfryngau cymdeithasol (14%)
- Asiantaethau (5%)
- Cyfeirlyfrau gweithwyr llawrydd (3%)

Mae’r defnydd a wneir o ffynonellau llafar ac ar-lein yn parhau i fod yn gyffredin, gan awgrymu bod y sianeli hyn yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth recriwtio. Fodd bynnag, gellid tynnu sylw at y ffaith fod bod yn ddibynnol ar y sianeli anffurfiol hyn yn gallu bod yn rhwystr posib i amrywiaeth ymysg y gweithlu, gan y gallai gyfyngu ar ystod yr ymgeiswyr a gyrhaeddir.

## Pa anawsterau recriwtio mae busnesau wedi eu hwynebu?




Gofynnwyd C15a i fusnesau

## Heriau recriwtio'n parhau

Er bod lefelau recriwtio'n parhau i fod yn isel, adroddodd 7% o fusnesau eu bod yn cael anawsterau gyda chadw staff, gan ddilyn tuedd debyg o 2023 (8%). Mae'r heriau hyn yn ymddangos ar draws pob sector, heb fod yna un is-sector unigol wedi ei effeithio'n sylweddol fwy.

## Prinder ymgeiswyr gyda sgiliau, hyfforddiant a phrofiad penodol iawn

Mae busnesau'n adrodd am anhawster i lenwi rolau arbenigol, gan ddweud bod pwll cyfyngedig o ymgeiswyr cymwys a heriau wrth ddenu gweithwyr proffesiynol profiadol. Mae'r farchnad gystadleuol yn ei gwneud hi'n fwy anodd sicrhau gweithwyr medrus, yn arbennig felly mewn meysydd penodol iawn. Mae rhai busnesau hefyd yn nodi bod diffyg cyrsiau hyfforddiant perthnasol yn cyfyngu ar ddatblygiad y sgiliau angenrheidiol.

> "Mae ceisio dod o hyd i sgiliau arbenigol, fel ceisio dod o hyd i ungorn hud."
>
> Sector sgrin

> "Mae'r lefel sy'n ofynnol yn uchel, ac felly, yn eithaf anodd dod o hyd iddo."
>
> Sector sgrin
>
> "Does dim llawer o bobl sydd â set sgiliau yma."
>
> Sector sgrin


## Cyfyngiadau ariannol

Mae rhai busnesau yn ei chael hi'n anodd cwrdd â disgwyliadau o ran cyflog oherwydd cyfyngiadau ariannol. Mae ymgeiswyr yn aml yn chwilio am gyflogau uwch na'r hyn sy'n fforddiadwy i fusnesau, ac mae diffyg arian yn cyfyngu ar opsiynau o ran penodi. Mewn sawl achos, rolau rhan amser yw'r unig ddatrysiad posib, ond mae'r rhain yn aml yn llai deniadol i rai sy'n chwilio am swyddi.

> "Disgwyliadau uchel o'r rôl o safbwynt tâl a hyblygrwydd o ran oriau gwaith, ac ni allwn fodloni'r un o'r rhain."
>
> Sector cerddoriaeth

> "Dyw gwaith rhan amser ddim mor ddeniadol, ond dyna'r cyfan rydyn ni'n gallu ei fforddio."
>
> Sector cerddoriaeth

> "Diffyg ariannu gan Lywodraeth Cymru."
>
> Sector digidol




Gofynnwyd C15b i weithwyr llawrydd

## Heriau'r farchnad swyddi i weithwyr llawrydd

Mae canran y gweithwyr llawrydd sy'n dweud bod anawsterau i ddod o hyd i waith wedi cynyddu'n sylweddol o 31% yn 2023 i 69% yn 2024. Er bod y fethodoleg wedi parhau yr un fath a bod y gyfran o weithwyr llawrydd a holwyd yn gyson gyda 2023, mae'n bosib bod y cynnydd yn y rhai sy'n adrodd am anawsterau yn adlewyrchu newidiadau yng nghyflwr y farchnad neu mwy o gystadleuaeth am waith llawrydd yn 2024.

Gweithwyr llawrydd yn y sector Sgrin (55 o ymatebwyr) a'r sector Digidol (6 o ymatebwyr) sy'n adrodd am yr anawsterau mwyaf o ran dod o hyd i waith. Mewn cyferbyniad, mae'n ymddangos bod gweithwyr llawrydd o fewn y sectorau Cerddoriaeth (5 ymatebwr) a Chyhoeddi (3 ymatebwr) fel pe baent wedi eu heffeithio llai. Fodd bynnag, oherwydd y maint sampl isel mewn rhai sectorau, dylid dehongli'r ffigyrau yma gyda gofal gan y gall newidiadau bach gael traweffaith ar dueddiadau cyffredinol.

## Diffyg gwaith ac ansefydlogrwydd incwm

Mae nifer o weithwyr llawrydd wedi ystyried gadael eu proffesiwn oherwydd cyfleoedd gwaith anghyson, sy'n creu ansefydlogrwydd ariannol. Mae gwaith anghyson yn ei gwneud hi'n anodd o ran cynnal incwm sefydlog, tra mae galw sy'n newid, cyfleoedd lleol cyfyngedig, a chyflogwyr sy'n amharod i ymateb yn ychwanegu at yr her. Mae'r ansefydlogrwydd yma wedi arwain at rwystredigaeth ac ansicrwydd, yn arbennig felly ar gyfer rhai sydd angen incwm dibynadwy er mwyn cwrdd â chostau angenrheidiol.

> "Rydw i angen talu'r morgais, felly rydw i angen gwaith mwy sefydlog."
>
> Sector sgrin

> “Ar ddechrau’r flwyddyn, aeth pethau’n dawel iawn i mi, felly roedd yn rhaid i mi ystyried mynd yn ôl i’r sector ro’n i’n gweithio ynddo yn flaenorol.”
> Sector sgrin

> “Os nad ydw i’n gallu cael gwaith llawrydd cyson, yna alla’ i ddim cadw fy mhen uwchben y dŵr.”
> Sector sgrin

## Tâl isel

Mae rhai gweithwyr llawrydd yn adrodd eu bod yn ennill llawer is nag incwm y mae modd byw arno, gan ei gwneud hi’n gynyddol anodd i gynnal gyrfa. Mae llawer yn cymryd sawl swydd ymlaen er mwyn gwneud iawn am enillion isel, ac eto maent yn parhau i wynebu straen ariannol.

> “Hoffwn i beidio â bod wastad dan straen yn poeni am fod yn ddigartref. Rydw i wedi bod yn y diwydiant am dros 12 mlynedd, ac eto dydw i ddim wedi symud yn fy mlaen yn broffesiynol oherwydd fy mod i yn y rhan yma o Gymru. Dydw i ddim yn rhan o’r grŵp poblogaidd ac felly dydw i ddim yn cael fy nefnyddio cymaint. Rydw i wedi cael fy nghyfyngu i faes gwaith gyda chyfleoedd cyfyngedig, gan fy ngadael dan straen ariannol. Byddai’n beth braf gallu byw fel oedolyn am bum munud a pheidio â gorfod cwtogi ar fwyd i un pryd y diwrnod oherwydd na alla’ i fforddio unrhyw beth mwy.”
> Sector sgrin

> “Dydw i ddim yn gallu cael gyrfa yng Nghymru a thalu fy miliau.”
> Sector sgrin

> “Dim ond £5,000 ydw i wedi ennill dros yr wyth mlynedd ddiweddaf yn fy mhroffesiwn. Dyw hi ddim yn beth anghyffredin ennill cyn lleied yn y diwydiant actio. Mae hi bron yn amhosib i 98% ohonom ennill bywoliaeth, felly yn aml mae’n rhaid i ni gael dwy swydd arall er mwyn dim ond goroesi.”
> Sector sgrin


## Rolau sy’n anodd i’w llenwi yn y Diwydiannau Creadigol

Ar draws y diwydiannau creadigol, mae 15% o fusnesau’n adrodd ei bod yn anodd llenwi rolau penodol, tebyg i 16% yn 2023. Mae’r rolau mwyaf anodd i’w llenwi fesul sector yn cynnwys:


- **Cerddoriaeth:** Peirianwyr sain, staff rhedeg bar, peirianwyr goleuo
- **Sgrin:** Ymchwilwyr, cynorthwywyr cynhyrchu, golygyddion
- **Digidol:** Dylunwyr, rhaglenwyr, arbenigwyr UX
- **Cyhoeddi:** Gweithwyr proffesiynol marchnata, dylunwyr, cyhoeddwyr (gan gynnwys golygyddion copi a phrawf-ddarllen)

Mae’r bylchau yma yn gyson â chanfyddiadau arolygon blaenorol gyda rolau technegol a rheoli yn parhau i fod yn anodd recriwtio ar eu cyfer, yn arbennig mewn meysydd arbenigol.

# Ffactorau sy’n cyfrannu at heriau recriwtio




Gofynnwyd C15c i weithwyr llawrydd sy’n profi anawsterau cael eu recriwtio




Gofynnwyd C16c i fusnesau sy’n cael anawsterau recriwtio


## Busnesau a gweithwyr llawrydd - Heriau a rhwystrau recriwtio

Mae heriau recriwtio yn parhau i fod yn broblem i rai busnesau a gweithwyr llawrydd yn y diwydiannau creadigol. Ymysg y busnesau a adroddodd am heriau, y rhwystr mwyaf arwyddocaol yw prinder ymgeiswyr gyda sgiliau penodol iawn (42%), yn arbennig mewn rolau technegol a chreadigol. Mae cyfyngiadau ariannol, gan gynnwys disgwyliadau o ran cyflog (13%), hefyd yn cael eu henwi fel her wrth recriwtio a chadw staff. Yn ogystal, mae 7% o fusnesau yn crybwyll ymwybyddiaeth gyfyngedig ynghylch recriwtio neu hysbysebu aneffeithiol, tra mae 6% yn tynnu sylw at rwystrau daearyddol. Nododd cyfran lai (3%) ddiffyg cyrsiau hyfforddi perthnasol, gan awgrymu nad yw'r ffaith fod rhai busnesau'n wynebu heriau gydag argaeledd hyfforddiant yn bryder sydd gan bawb.

Mae gweithwyr llawrydd yn adrodd am heriau sy'n gorgyffwrdd ond sy'n hefyd yn annhebyg o ran y busnesau, gyda mwy o bryderon ynghylch argaeledd gwaith a sefydlogrwydd ariannol. Mae nifer yn wynebu ansicrwydd o ran sicrhau gwaith cyson, gyda chystadleuaeth, galw sy'n newid a chyfleoedd ariannu cyfyngedig yn cyfrannu at ansefydlogrwydd. Mae dibyniaeth ar recriwtio ar sail rhwydweithio hefyd yn gallu cyfyngu mynediad at gyfleoedd, yn arbennig felly ar gyfer y rhai sydd heb gysylltiadau sydd wedi'u sefydlu o fewn y diwydiant. Er bod busnesau'n adrodd am heriau o ran dod o hyd i weithwyr sydd â sgiliau, mae gweithwyr llawrydd yn dynodi bod diffyg gwelededd a llwybrau strwythuredig i mewn i gyflogaeth.

> "Mae'n anodd dod o hyd i gronfa ddata o weithwyr llawrydd yng Nghymru. Byddai'n beth gwerthfawr iawn. Mae gan Fryste Bristol Creative Industries, ac rydw i'n mynd yno, fel y mae llawer o bobl yng Nghymru. Dyw pobl yn fy sector i ddim yn hysbysebu eu hunain yn dda pan maen nhw'n gweithio'n llawrydd. Does yna ddim cymuned ar-lein sy'n cwmpasu Cymru gyfan ar gyfer gweithwyr llawrydd yn y gwasanaeth digidol a'r celfyddydau."
>
> Sector digidol


## Pa fylchau sgiliau mae busnesau yn eu hwynebu?




Gofynnwyd C18c i rai sydd â bwlch o ran sgiliau (busnesau a gweithwyr llawrydd fel ei gilydd)

## Bwlch sgiliau parhaus yn y Diwydiannau Creadigol

Mae prinder sgiliau penodol yn parhau i fod yn her allweddol, gyda thros draean o fusnesau'n adnabod bylchau o'r fath yn eu gweithlu. Mae'r prinder yma yn arbennig o amlwg o safbwynt rolau technegol a chreadigol, lle mae llawer iawn o alw am arbenigedd penodol. Mae cymariaethau gyda 2023 yn awgrymu bod y bylchau yma yn parhau i fod yn ddigyfnewid i bob pwrpas, gan ddynodi nad yw'r darpariaethau hyfforddi presennol, o bosib, yn alinio'n llawn gydag anghenion y diwydiant.




Dangosir canlyniadau C18c ar gyfer gweithwyr llawrydd yn unig

Mae gweithwyr llawrydd yn wynebu heriau gwahanol, gyda nifer yn tynnu sylw at angen am hyfforddiant mewn marchnata a brandio, rheoli arian a sgiliau technoleg. Mae diffyg cefnogaeth wedi'i strwythuro ar gyfer datblygiad proffesiynol yn parhau i fod yn amharu ar dwf gyrfa, gan ei gwneud hi'n anodd i weithwyr llawrydd barhau i fod yn gystadleuol yn y diwydiant.

Er gwaetha'r heriau hyn, mae 35% o fusnesau'n darparu cyfleoedd hyfforddiant wedi'u strwythuro, sy'n golygu bod nifer o weithwyr yn dibynnu ar ddysgu wedi'i hunan-gyfarwyddo neu gyrsiau allanol. Mae sgiliau iaith Gymraeg (23%) hefyd yn parhau i fod yn faes lle mae angen, gan adlewyrchu'r galw parhaus am siaradwyr Cymraeg o fewn y diwydiant. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod busnesau a gweithwyr llawrydd angen cyfleoedd hyfforddi sy'n fyw penodol er mwyn mynd i'r afael gyda phrinder sgiliau ac anghenion datblygu gyrfa.

## Mynediad at hyfforddiant, boddhad o ran swydd a llesiant.

Mae ymatebion i'r cwestiynau newydd a gyflwynwyd yn 2024 yn datgelu profiadau cymysg wrth asesu hyfforddiant, tra mae lefelau bodlonrwydd gyda swydd a lles yn gyffredinol yn bositif.

- **Mynediad at yr hyfforddiant:** Mae dros chwarter (28%) yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at hyfforddiant perthnasol, o'i gymharu gyda 22% sy'n ei chael hi'n hawdd, gyda'r mwyafrif (50%) heb farn.

- **Bodlonrwydd swydd:** Mae bron i bedwar mewn pump o ymatebwyr (78%) yn dweud bod eu bodlonrwydd gyda'u swydd yn uchel (4 neu 5), gydag ychydig iawn (7%) yn adrodd am fodlonrwydd isel.
- **Llesiant sy'n gysylltiedig gyda gwaith:** Er bod sgoriau llesiant yn rhai cadarnhaol gan mwyaf (64% yn rhoi 4 neu 5), roedd mwy o ymatebwyr (16%) yn dweud bod eu llesiant yn isel o'i gymharu gyda bodlonrwydd efo'u swydd.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod heriau ynghylch mynediad at hyfforddiant a llesiant yn parhau i rai, er bod bodlonrwydd gyda gwaith yn uchel.


# Cymru Greadigol

## Ymwybyddiaeth o Cymru Greadigol

Mae ymwybyddiaeth o Cymru Greadigol wedi cynyddu, gyda 67% o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi clywed am yr asiantaeth fewnol. Ymysg y rhai hynny oedd yn ymwybodol, mae 81% yn gwybod ei fod yn rhan o Lywodraeth Cymru.

## Sut all Cymru Greadigol gefnogi'r diwydiant?

**C23 "Sut gall Cymru Greadigol eich cefnogi yn y dyfodol?** *Dewiswch eich 3 ateb gorau"*



## Mathau o gefnogaeth y chwilir amdano

Mae cefnogaeth ariannol yn parhau i fod y ffurf o gymorth sy'n cael ei chwilio amdano fwyaf, gyda thros hanner yr ymatebwyr (515) yn blaenoriaethu ariannu o ran sut y gall Cymru Greadigol gefnogi'r sector. Mae hyn yn alinio gyda'r adborth o flynyddoedd blaenorol, lle mae cyfyngiadau ariannol wedi cael eu hadnabod fel her i fusnesau creadigol a gweithwyr llawrydd.

Y meysydd eraill sy'n cael eu henwi'n aml yn cynnwys cefnogaeth gyda rhwydweithio (34%) a chefnogaeth busnes (26%), yn arbennig felly o ran cynllunio ariannol, twf yn y diwydiant, ac arweiniad gweithredol. Mae marchnata a gwelededd (30%) hefyd yn flaenoriaethau allweddol lle gallai mwy o gefnogaeth gael ei roi, gan ddynodi'r galw am gyfleoedd ychwanegol i hyrwyddo gwaith creadigol a chynyddu ymwybyddiaeth o fewn y sector.

Mae rhai ymatebwyr (16%) yn ansicr ynghylch sut fyddai Cymru Greadigol yn gallu eu cefnogi yn y dyfodol, tra bo 9% yn dweud nad ydynt angen cymorth, gan adlewyrchu'r gwahaniaethau o ran ymwybyddiaeth ac ymgysylltu gyda mentrau Cymru Greadigol.

## Adborth ychwanegol a blaenoriaethau sy'n benodol i'r sector

Yn ogystal â dewis ariannu fel prif flaenoriaeth yn gynharach yn yr arolwg (51%) fe wnaeth 19% o ymatebwyr hefyd grybwyll cynnydd mewn mynediad at grantiau, ariannu a benthyciadau mewn sylwadau penagored, gan atgyfnerthu ei bwysigrwydd parhaus. Mae awgrymiadau eraill ynghylch sut allai Cymru Greadigol gefnogi'r diwydiant yn well yn cynnwys:

- Mwy o ffocws ar recriwtio'n lleol a chefnogi talent o Gymru (8%)
- Mwy o ffocws ar amrywiaeth, hawliau'r gweithiwr a lleihau gwahaniaethu (6%)
- Gwell cyfathrebu ac amser ymateb (5%)
- Cysylltiadau rhyngwladol cryfach a chefnogaeth gyda chydweithrediadau UE (5%)
- Mwy o gefnogaeth ar gyfer prosiectau ar raddfa lai neu sydd heb fod â phroffil uchel (3%)
- Hyrwyddo cyfleoedd am swydd i a rolau o fewn y diwydiant yn well (3%)
- Lleihau costau neu rwystrau ariannol (3%)
- Cefnogaeth fwy cytbwys ar draws Cymru, y tu hwnt i dde Cymru (3%)


Er bod cefnogaeth ariannol yn parhau i fod yr angen sy'n cael ei nodi amlaf, mae ymatebion yn awgrymu galw am well hygyrchedd, cynhwysiant ac ymgysylltu wedi'i dargedu ar draws gwahanol rannau o'r diwydiannau creadigol.

> "Byddai creu cymuned ar-lein sy'n cwmpasu rhai sy'n gweithio o fewn y diwydiannau creadigol yn ddechrau gwych."
> Sector digidol

> "Hysbysebu swyddi ar gyfer swyddi o fewn y sector sgrin, yn arbennig felly er mwyn helpu gweithwyr llawrydd sy'n dechrau arni."
> Sector sgrin


“Darparu rhyddhad o drethi er mwyn annog mwy o gwmnïau o Gymru i gymryd gweithwyr creadigol iau.”
Sector sgrin

## Gwahaniaethau fesul sector




Gofynnwyd C24 i rai sy’n ymwybodol o Cymru Greadigol

## Gwahaniaethau fesul rhanbarth





Gofynnwyd C24 i rai sy'n ymwybodol o Cymru Greadigol


## Effeithiolrwydd cyfathrebu

Er bod ymwybyddiaeth o Cymru Greadigol wedi cynyddu, mae canfyddiadau o ba mor dda mae'r sefydliad yn cyfathrebu ei rôl a'i wasanaethau yn parhau i fod yn gymysg. Tra mae 19% yn dweud bod cyfathrebu Cymru Greadigol yn effeithiol (4 neu 5 allan o 5), a 47% yn dweud ei fod yn llai effeithiol (1 neu 2), mae cyfran helaeth - 34% - yn parhau i fod heb farn gan sgorio 3 iddo. Nododd rhai ymatebwyr bod amser ymateb ac eglurder cyffredinol o fewn cyfathrebu yn feysydd lle gellid gwneud gwelliannau.

**Noder:** Mae'n bosib bod sgoriau gan y sector Cyhoeddi yn cael eu dylanwadu gan berthynas uniongyrchol y sector gyda Chyngor Llyfrau Cymru, sy'n darparu'r rhan fwyaf o gefnogaeth drwy ariannu gan Cymru Greadigol. O'r herwydd, mae'n bosib bod Cymru Greadigol yn cael ei ystyried fel y prif bwynt cyswllt o fewn y sector hwn.

# Dulliau eraill




Gofynnwyd C28a/ b i rai sydd yn y sector sgrin

## Ymgysylltu gyda chronfeydd data'r diwydiant

Mae busnesau a gweithwyr llawrydd o fewn y sector sgrin yn ymgysylltu gyda chronfeydd data'r diwydiant ar wahanol lefelau. Ymysg gweithwyr llawrydd, mae 43% o ymatebwyr wedi eu cofrestru ar Gronfa Ddata Criw Gweithwyr Llawrydd Sgrin Cymru, tra mae 22% o fusnesau yn cael eu rhestru ar y Gronfa Ddata Cyfleuster Cynhyrchu.

Ar hyn o bryd, dyw llawer o fusnesau a gweithwyr llawrydd ddim wedi cofrestru ar y cronfeydd data yma. Er bod y platfformau hyn ar gael fel adnoddau, nid yw'n eglur i ba raddau maent yn cael eu defnyddio'n rhagweithiol o fewn y diwydiant.

## Dulliau cyfathrebu dewisol

E-bost yw'r dull dewisol o dderbyn diweddariadau gan Cymru Greadigol (83%), tra dim ond 5% sy'n well ganddynt alwad ffôn neu lythyr drwy'r post. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn llai dewisol (15%) a dyw 11% ddim eisiau derbyn diweddariadau.


## Defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer busnes

Facebook (56%) ac Instagram (50%) yw’r platfformau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir fwyaf ar gyfer busnes, tra bod LinkedIn (32%) yn blatfform allweddol ar gyfer rhwydweithio proffesiynol. Mae llai o ddefnydd o X (Twitter gynt) (16%) a YouTube (11%).


Dywedodd 23% o ymatebwyr nad ydynt yn defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer busnes, gan ddangos nad yw’n hanfodol i bawb yn y sector, er bod ganddo rôl i’w chwarae. Crybwyllodd rhai ymatebwyr blatfformau amgen megis Discord, Reddit, a fforymau arbenigol, gan arddangos y ffyrdd amrywiol y mae gweithwyr proffesiynol creadigol yn ymgysylltu ar-lein.

# Galluoedd Iaith Gymraeg

## Gwahaniaethau fesul sector




## Gwahaniaethau fesul rhanbarth




## Hyfedredd yn y Gymraeg

Mae hyfedredd yn y Gymraeg ymysg ymatebwyr yn parhau i fod yn gymysg, gyda llai yn adrodd eu bod yn rhugl o'i gymharu gyda blynyddoedd blaenorol. Dywedodd 15% eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, ychydig o ostyngiad o 18% yn 2023, tra bod 8% yn gallu siarad eithaf tipyn. Roedd y

gyfran fwyaf (34%) yn dweud mai dim ond ychydig eiriau maent yn gallu eu dweud, tra bo 23% heb unrhyw allu o ran y Gymraeg.

## Newidiadau o ran defnyddio'r Gymraeg

Er bod 43% o ymatebwyr yn adrodd bod ganddynt ryw lefel o allu o ran y Gymraeg, mae hyfedredd ymatebwyr yn gyffredinol is na'r blynyddoedd blaenorol ac mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl wedi lleihau rhywfaint.

## Gwahaniaethau rhanbarthol ac o fewn sectorau

Mae gallu o ran y Gymraeg yn amrywio ar draws y rhanbarthau a'r sectorau.

- **Strategaeth ranbarthol:**
    - Rhanbarth gogledd Cymru sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg rhugl (34%) neu rai sy'n gallu siarad eithaf tipyn.
    - De-ddwyrain Cymru sydd â'r ganran uchaf o ymatebwyr heb unrhyw hyfedredd yn y Gymraeg (26%), tra mai de-orllewin Cymru sydd â'r lleiaf (7%) o siaradwyr Cymraeg rhugl.
- **Dadansoddiad o'r sector:**
    - Y sector Sgrin sydd â'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg rhugl (21%).
    - Y sector Digidol sydd â'r lefelau isaf o sgiliau iaith Gymraeg (8%), gyda chyfradd uwch o ymatebwyr yn adrodd mai ychydig o hyfedredd yn unig sydd ganddynt, neu ddim o gwbl (89%).

Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at heriau o ran cynnal defnydd o'r Gymraeg, yn arbennig felly mewn sectorau a rhanbarthau sydd â lefelau is o hyfedredd. Gallai yn fod yn sail i fentrau ar gyfer cefnogi hyfforddiant, ariannu neu hyrwyddo gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

# Goblygiadau i Cymru Greadigol

## Sefydlogrwydd busnes a chefnogaeth ariannol

Mae canlyniadau arolwg 2024 yn tynnu sylw at heriau parhaus a meysydd cyfle o fewn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. O'i gymharu gyda 2023, mae rhai tueddiadau yn parhau'n gyson, tra mae eraill yn dangos newid o fewn ymgysylltu, anawsterau recriwtio, pwysau ariannol a heriau gweithwyr llawrydd o fewn y sector.

Mae pwysau ariannol yn parhau i gael traweffaith ar fusnesau, gyda lefelau tebyg o ostyngiad mewn trosiant yn cael ei adrodd fel yn 2023. Er bod rhai busnesau wedi profi twf, mae pwysau o ran costau yn parhau i fod yn ffactor bwysig sy'n effeithio ar sefydlogrwydd ariannol. Mae cyfran y busnesau nad ydyn nhw'n cael eu hariannu yn debyg i flynyddoedd blaenorol, er na wnaeth pob busnes ymgeisio neu nad oeddent yn gymwys.

Mae busnesau wedi adnabod marchnata a gwelededd fel maes allweddol lle maent angen mwy o gefnogaeth, ynghyd â chymorth ariannol. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod cynyddu mynediad at ariannu a chodi proffil y sector drwy ymdrechion i wella marchnata a gwelededd yn parhau i fod yn flaenoriaethau.

## Recriwtio a bylchau o ran sgiliau

Mae herio recriwtio'n parhau, gyda busnesau'n parhau i adrodd am anawsterau o ran dod o hyd i ymgeiswyr gyda sgiliau sy'n benodol i'r sector a sgiliau technoleg, Mae'r prinder yma wedi parhau yn ddigyfnewid i bob pwrpas er 2023.

Mae gweithwyr llawrydd yn parhau i wynebu mwyn o anawsterau cyflogaeth na pherchnogion busnesau, gyda chynnydd nodedig yn rhai sy'n adrodd am drafferthion o ran sicrhau gwaith. Y sectorau Sgrin a Digidol sy'n adrodd am y lefelau uchaf o anhawster o ran dod o hyd i swyddi, gan adlewyrchu heriau penodol o fewn y sector.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod busnesau a gweithwyr llawrydd yn profi gwahanol heriau cyflogaeth. Mae rhai busnesau'n adrodd am anawsterau o ran llenwi swyddi gyda sgiliau arbenigol, tra mae gweithwyr llawrydd yn dweud bod problemau gydag argaeledd gwaith a chystadleuaeth wrth chwilio am swyddi. Byddai ehangu mynediad at hyfforddiant sy'n benodol i'r diwydiant a gwella llwybrau recriwtio o bosib yn helpu i fynd i'r afael gyda'r heriau hyn.

## Ymwybyddiaeth a chyfathrebu

Gwelwyd cynnydd o ran ymwybyddiaeth o Cymru Greadigol. Fodd bynnag, mae canfyddiadau ynghylch effeithiolrwydd cyfathrebu'n parhau i fod yn gymysg. Mae e-bost yn parhau i fod yn hoff ddull o gyfathrebu yn gyffredinol, tra bod ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn is.

Mae llai yn dewis y cyfryngau dewisol fel eu hoff ddull yn gyffredinol, gan ddangos y gall bod angen strategaethau amgen er mwyn gwella ymgysylltu. Byddai ymdrechion cyfathrebu wedi'i deilwra yn gallu helpu i sicrhau bod cefnogaeth Cymru Greadigol yn cael ei gyfathrebu'n eglur ac yn cael ei wneud yn hygyrch.

## Heriau gweithwyr llawrydd

Mae gweithwyr llawrydd yn wynebu mwy o ansicrwydd o ran cyflogaeth, gyda nifer yn ystyried gadael y proffesiwn oherwydd heriau sy’n berthnasol i argaeledd gwaith, cystadleuaeth a chyfyngiadau o ran ariannu.

Mae canfyddiadau’r arolwg yn dangos gwahaniaethau allweddol yn y ffordd mae gweithwyr llawrydd a busnesau’n ymgysylltu gydag adnoddau o fewn y diwydiant, gyda gweithwyr llawrydd yn fwy tebygol o ddefnyddio cronfeydd data sy’n benodol i’r diwydiant na busnesau. Gallai deall sut mae gweithwyr llawrydd yn dod o hyd i waith ac ymgysylltu gyda llwyfannau sydd gan y diwydiannau fod yn sail i strategaethau cefnogi mwy effeithiol.

## Ymgysylltu rhanbarthol ac o fewn y sector

Gwelodd y sector Sgrin gynnydd mewn cynrychiolaeth yn 2024, tra bod ychydig llai o gyfranogiad o fewn y sector Cerddoriaeth a Chyhoeddi. Mae’r newidiadau hyn yn adlewyrchu’r newidiadau o fewn ymgysylltiad y sector ond nid ydynt o reidrwydd yn dangos tueddiadau o fewn y diwydiant yn ehangach.

Mae amrywiadau rhanbarthol mewn ymatebion yn adlewyrchu patrymau poblogaeth a chyflogaeth ehangach, gyda de-ddwyrain Cymru yn darparu’r gyfran fwyaf o ymatebion a chanolbarth Cymru yn darparu’r lleiaf. Fel gyda blynyddoedd blaenorol, mae lefelau ymgysylltu yn amrywio ar draws y rhanbarthau, a gallai hynny fod yn cael ei ddylanwadu gan ddosbarthiad o fewn y sector a gweithgaredd o fewn y diwydiant.

## Rhagolygon y sector - 2023 o’i gymharu gyda 2024

Mae’r canlyniadau o 2024 yn alinio gyda nifer o’r prif themâu a welwyd yn 2023, yn arbennig o safbwynt prinder sgiliau, pwysau ariannol a sefydlogrwydd gwaith ar gyfer gweithwyr llawrydd. Mae’r cynnydd o safbwynt ymwybyddiaeth o Cymru Creadigol yn awgrymu bod mwy o gydnabyddiaeth o’r rôl mae’n ei chwarae.

Mae hyder yn y busnes yn parhau i fod yn gymysg, gyda phwysau o ran costau a mynediad at ariannu yn parhau i fod yn brif bryderon. Er bod tueddiadau trosiant yn debyg i’r flwyddyn flaenorol, mae’r sector Sgrin a Cherddoriaeth yn adrodd eu bod dan fwy o bwysau ariannol nac eraill.

Mae ymwybyddiaeth o Gymru Greadigol wedi gwella, ond mae effeithiolrwydd o ran cyfathrebu yn parhau i fod yn faes y dylid ei ddatblygu. Parhau i dynnu sylw at yr angen am ymgysylltu mwy eglur a chefnogaeth wedi’i theilwra mae busnesau a gweithwyr llawrydd. Mae’r galw am gymorth ariannol, cefnogaeth marchnata ac arweiniad o ran busnes yn parhau i fod yn uchel, gan ddynodi nad yw blaenoriaethau craidd y busnes wedi newid yn sylweddol.

## Ystyriaethau olaf

Mae’r ymchwil yn atgyfnerthu’r angen am gefnogaeth barhaus mewn meysydd allweddol megis cymorth ariannol, strategaethau recriwtio a datblygu sgiliau. Er bod rhai gwelliannau wedi’u nodi, mae’r heriau craidd sy’n wynebu’r diwydiant yn parhau heb newid gan mwyaf. Wrth symud ymlaen, mae’n bosib y gallai Cymru Greadigol elwa o ganolbwyntio ar ymgysylltu wedi’i dargedu’n fwy o fewn y sector, gwell ymdrechion cyfathrebu yn rhanbarthol a chefnogaeth sy’n benodol ar gyfer gweithwyr llawrydd er mwyn helpu i gryfhau gwydnwch y diwydiannau creadigol yng Nghymru.

# Holiadur Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2024

## Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2024

### Am y busnes

C1 **Ym mha un o'r is-sectorau canlynol mae eich busnes/ ydych chi'n weithgar ynddo ar hyn o bryd?**

Cerddoriaeth
Sgrin
Digidol (gan gynnwys Animeiddio, Gemau, Trochi, Createch )
Cyhoeddi

C2 **Ym mha awdurdod lleol mae eich busnes / ydych chi wedi'ch lleoli?**

Blaenau Gwent
Penybont
Caerffili
Caerdydd
Sir Gaerfyrddin
Ceredigion
Conwy
Sir Ddinbych
Sir y Fflint
Gwynedd
Ynys Mon
Merthyr Tudful
Sir Fynwy
Castell-nedd Port Talbot
Casnewydd
Sir Benfro
Powys
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Torfaen
Bro Morgannwg
Wrecsam
Y tu allan i Gymru

C3 **Pa un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi?**

Rwy'n hunangyflogedig
Rwy'n llawrydd
Rwy'n gyflogedig gan y cwmni
Rwy'n gyflogwr/cyfarwyddwr/perchennog y cwmni

C4 **Pryd wnaeth y busnes/chi ddechrau masnachu?**

Yn y 2 flynedd diwethaf
2-5 mlynedd yn ôl
6-10 mlynedd yn ôl
Mwy na 10 mlynedd yn ôl

C5 **Beth yw strwythur cyfreithiol y busnes (ee, perchnogaeth unigol, partneriaeth, corfforaeth)?**

Perchnogaeth unigol / masnachwr
Cwmni cyfyngedig preifat, cyfyngedig drwy gyfrannau (LTD)
Cwmni preifat cyfyngedig trwy warant
Partneriaeth
Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig
Sefydliad Corfforedig Elusennol
Arall (nodwch)

C6a **Mae gennym ddiddordeb mewn archwilio amrywiaeth y gweithlu creadigol, felly mae gennym ddiddordeb mewn darganfod pa mor amrywiol yw'r sectorau yn fwy manwl.**

## Sut byddech chi'n disgrifio'ch hun?

Dyn
Dynes
Anneuaidd
Arall
Gwell gennyf beidio â dweud
Nodwch eich ymateb 'arall'

C6b **Beth yw eich ethnigrwydd?**

Gwyn
Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig

Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd
Grwpiau ethnig Cymysg neu Lluosog
Grŵp ethnig arall
Gwell gennyf beidio â dweud

**Ai dyna...?**
Gwyn Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogleddol neu Brydeinig
Gwyddel gwyn
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
Roma
Gwyn Arall
Gwell gennyf beidio â dweud
Arall (nodwch)

**Ai dyna...?**
Indiaidd
Bangladeshaidd
Pacistanaidd
Tsieineaidd
Unrhyw gefndir Asiaidd arall
Gwell gennyf beidio â dweud
Arall (nodwch)

**Ai dyna...?**
Caribïaidd
cefndir Affricanaidd
Unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall
Gwell gennyf beidio â dweud
Arall (nodwch)

**Ai dyna...?**
Gwyn a Du Caribïaidd
Gwyn ac Asiaidd
Gwyn a Du Affricanaidd
Unrhyw gefndir cymysg neu luosog arall
Gwell gennyf beidio â dweud
Arall (nodwch)

**Ai dyna...?**
Arabaidd

Unrhyw grŵp ethnig arall
Gwell gennyf beidio â dweud
Arall (nodwch)

C6c **Beth yw eich cenedligrwydd?**

**Cymraeg**
**Saesneg**
**Albanaidd**
**Gogledd Iwerddon**
**Prydeinig neu Wyddelig**
**Arall (nodwch)**

C6d **Beth yw'r lefel uchaf o addysg rydych chi wedi'i chyflawni?**

Dim cymwysterau ffurfiol
Ysgol Uwchradd (hyd at 16 oed)
Addysg Bellach (ee, Safon Uwch, cymwysterau galwedigaethol)
Gradd israddedig (ee BA, BSc)
Gradd ôl-raddedig (ee MA, MSc, PhD)
Cymwysterau Proffesiynol (tystysgrifau neu gymwysterau a ddyfernir gan gyrff neu sefydliadau proffesiynol)
Gwell gennyf beidio â dweud

C6e **Ydych chi'n anabl?**

Ydw
Nac ydw
Gwell gennyf beidio â dweud

## Yr Iaith Gymraeg

C7 **Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich gallu i siarad Cymraeg?**

Dw i'n rhugl yn y Gymraeg
Dw i'n gallu siarad tipyn o Gymraeg
Dim ond ychydig o Gymraeg alla i ei siarad
Gallaf ddweud ychydig eiriau yn unig
Dw i ddim yn gallu siarad Cymraeg

## Cyflogaeth

C8 **Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd/gweithwyr: Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, faint o bobl roedd eich busnes yn eu cyflogi sydd...?**

Staff llawn amser
Staff rhan-amser
Gweithwyr llawrydd
Prentisiaid
Hyfforddeion
Gwirfoddolwyr

## Trosiant

C9 **Beth yw eich blaenoriaethau busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod?**
*Dewiswch eich tri ateb gorau yn unig*

Cynyddu proffidioldeb
Tyfu'r gweithlu
Arallgyfeirio'r gweithlu
Gweithredu arferion lles gwell ar gyfer y gweithlu/fi fy hun
Cynnig ystod ehangach o wasanaethau
Bod yn fwy cynaliadwy
Rhwydweithio
Gwella cyfleoedd marchnata ac ymwybyddiaeth brand
Contractio fel busnes/sefydliad
Cynnal y statws presennol / dal ati fel ag y mae
Ansicr / Dim blaenoriaethau penodol
Arall (nodwch)

C10a **O'i gymharu â'ch blwyddyn ariannol ddiwethaf, a yw eich trosiant wedi cynyddu neu leihau?**

Cynyddu
Lleihau
Dim newid/ aros yr un peth

C10b **Os yw wedi cynyddu neu leihau: O gymharu â'ch blwyddyn ariannol ddiwethaf, faint mae hyn wedi newid?**

Llai nag 1%

1-20%
21-40%
41-60%
61-80%
81-100%
Mwy na 100%
Ddim yn gwybod

C10c **Os newidiodd: Beth yn eich barn chi a gyfrannodd at y newid hwn?** *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Faint o fusnes/gwaith sydd ar gael
Swm y cyllid cyhoeddus sydd ar gael
Effeithiau parhaus o bandemig Covid-19
Effeithiau costau byw cynyddol
Faint o ymwybyddiaeth o'r busnes/fy ngwaith
Faint o ddefnyddwyr neu gyfranogiad yn y sector rwy'n gweithio ynddo
Arall (nodwch)

C11 **Gan ddefnyddio graddfa o 1 i 5, lle nad yw 1 yn hyderus o gwbl a 5 yn hyderus iawn, pa mor hyderus ydych chi am redeg eich busnes yn broffidiol yn y flwyddyn ariannol nesaf?**

1 – Ddim yn hyderus o gwbl
2
3 – Ychydig yn hyderus
4
5 – Hyderus iawn

C12 **Pa ffynonellau cyllid a gawsoch yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Llyfrau Cymru
Grantiau ardrethi busnes
Grantiau'r Cyngor
Cymru Greadigol/ grantiau Llywodraeth Cymru
Arian y Loteri Genedlaethol
Grantiau hunangyflogaeth
Ni chefais unrhyw gyllid
Arall (nodwch))

## Sgiliau a recriwtio

C13 **Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd: Ar gyfer busnesau: Yn y 12 mis diwethaf, ble rydych chi wedi recriwtio a sut?** *Os ydynt yn crybwyll trwy gynllun hyfforddi, gofynnwch pa un. Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Cyfeiriadur llawrydd

Ffynonellau ar-lein

Trwy asiantaeth

Trwy sianeli AU/AB

Ar lafar

Trwy gynllun hyfforddi (nodwch)

Trwy gyfryngau cymdeithasol

Amherthnasol/ heb recriwtio

Arall (nodwch)

C14 **Pa rolau wnaethoch chi recriwtio ar eu cyfer?**

*Disgrifiwch unrhyw rolau yr ydych wedi llogi neu gontractio gwaith ar eu cyfer. Os ydych chi'n gyflogai sy'n ymwneud â chyflogi, nodwch eich rhan mewn cylogi.*

C15a *Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd:* **Ar gyfer busnesau: A ydych wedi cael anawsterau gyda chadw staff yn y 12 mis diwethaf?**

Do

Na

**Faint o staff sydd wedi gadael eu rolau?** *Nodwch rif bras lle bo modd*

*Gweithwyr Llawrydd:* **Ar gyfer gweithwyr llawrydd: A ydych chi wedi cael trafferth dod o hyd i swyddi ar gyfer rhai rolau?**

Do

Na

C15b **Os do: Pam ydych chi'n meddwl mae hyn?** *Rhowch fanylion llawn isod*

*Os ydych yn llawrydd neu'n hunangyflogedig, disgrifiwch unrhyw heriau rydych wedi'u hwynebu wrth ddod o hyd i waith neu logi cymorth.*

C16 **Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd: Ar gyfer busnesau: A ydych chi wedi wynebu heriau wrth lenwi rolau penodol?**

Do

Na

C17a **Pa rolau sydd wedi bod yn heriol i'w llenwi?**

C17b *Ydw:* **Pam ydych chi'n meddwl mae hyn?** *Rhowch fanylion llawn isod*

C17c *Gweithwyr Llawrydd:* **Ar gyfer gweithwyr llawrydd: Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, a ydych chi wedi ystyried gadael eich proffesiwn?**

Do

Na

**Os do: Pam?** *Rhowch fanylion llawn isod*

C18a *Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd:* **Ar gyfer busnesau: A oes gennych unrhyw fylchau sgiliau yn eich gweithlu neu'n rhagweld unrhyw rai yn y flwyddyn nesaf?**

Oes

Nac oes

*Gweithwyr Llawrydd:* **Ar gyfer gweithwyr llawrydd: A oes gennych chi anghenion datblygiad proffesiynol penodol?**

Oes

Nac oes

C18b *Os ydych:* **Pa fylchau sgiliau neu heriau ydych chi wedi dod ar eu traws?** *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Yr Iaith Gymraeg

Cymwysterau Gwybodaeth sector-benodol neu fylchau sgiliau technegol sy'n berthnasol i'r sector

Sgiliau pobl

Sgiliau gweinyddol

Sgiliau rheoli

Sgiliau technoleg Marchnata a brandio (gwefan, cyfryngau cymdeithasol)

Ariannu a sgiliau ariannol

Sgiliau creadigol ac artistig

Cydlynu gwirfoddolwyr

Cynllunio strategol

Sgiliau marchnata digidol

Arall (nodwch)

Nodwch fylchau gwybodaeth/sgiliau sector-benodol

C19 *Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd/gweithwyr:* **Ar gyfer busnesau: Ydych chi'n darparu hyfforddiant a datblygu sgiliau ar gyfer eich staff?**

Ydym

Nac ydym

**Os ydym: Pwy yw'r darparwr hyfforddiant?** *Rhowch fanylion llawn isod*

C20a *Gofynnwch i bawb:* **Gan ddefnyddio graddfa o 1-5, lle mae 1 yn anodd iawn a 5 yn hawdd iawn, pa mor hawdd yw hi i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau perthnasol (naill ai'n annibynnol neu drwy waith)?**

1 – Anodd iawn

2

3 – Naill na'r llall

4

5 – Hawdd iawn

C20b *Gofynnwch i bawb:* **Gan ddefnyddio graddfa o 1-5, lle mae 1 yn isel iawn a 5 yn uchel iawn, beth yw eich barn am eich boddhad swydd?**

1 – Isel iawn

2

3 – Naill na'r llall

4

5 – Uchel iawn

C20c *Gofynnwch i bawb:* **Gan ddefnyddio graddfa o 1-5, lle mae 1 yn isel iawn a 5 yn uchel iawn, beth yw eich barn am eich lles mewn perthynas â gwaith?**

1 – Isel iawn

2

3 – Naill na'r llall

4

5 – Uchel iawn

## Cymru Greadigol

C21 **Ydych chi wedi clywed am Cymru Greadigol?**

Ydw
Nac ydw

*Os na yn C21, darllenwch yn uchel: Mae Cymru Greadigol yn asiantaeth Llywodraeth Cymru a sefydlwyd yn 2020 i gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Maent yn harneisio pŵer y sectorau creadigol, yn ysgogi twf yn yr economi ac yn helpu i adeiladu dyfodol llewyrchus i Gymru.*

C22 **Sut gall Cymru Greadigol eich cefnogi yn y dyfodol?** *Dewiswch eich 3 ateb gorau*

Ydw
Nac ydw

C23 **Sut gall Cymru Greadigol eich cefnogi yn y dyfodol?** *Dewiswch eich 3 ateb gorau*

Cyllid
Rhwydweithio
Cymorth a chyngor busnes
Cefnogaeth gyda mynediad i hyfforddiant seiliedig ar waith
Darparu cyrsiau AB/AU a ariennir yn gyhoeddus
Adnoddau a seilwaith
Cymorth gyda marchnata/hyrwyddo/gwelededd
Dim angen cefnogaeth gan Cymru Greadigol / Dim byd y gallant helpu ag ef
Ddim yn gwybod / ddim yn siŵr
Arall (nodwch)

C24 *Os do yn C21:* **Gan ddefnyddio graddfa o 1 i 5, lle nad yw 1 yn dda iawn a 5 yn dda iawn, pa mor dda ydych chi'n meddwl y mae Cymru Greadigol yn cyfathrebu'r hyn y mae'n ei wneud a sut y gall eich helpu?**

1 – Ddim yn dda iawn
2
3
4
5 – Da iawn

## Sianeli eraill

C25 **Sut byddai'n well gennych dderbyn newyddion a gwybodaeth am yr hyn y mae Cymru Greadigol yn ei wneud a sut y gall eich cefnogi?** *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Ebost
Ffon
Cyfryngau cymdeithasol
Post
Arall (nodwch)
Ddim eisiau newyddion na gwybodaeth

C26 **Pa sianeli cyfryngau cymdeithasol ydych chi'n dibynnu arnynt at ddibenion busnes?**
*Dewiswch eich 5 sianel a ddefnyddir fwyaf*

LinkedIn
Facebook
X (Trydar yn flaenorol)
Instagram
Pinterest
YouTube
TikTok
WhatsApp
Tumblr
Yelp
Snapchat
Mastodon
BlueSky
Threds
Arall (nodwch)
Ddim yn dibynnu ar cyfryngau cymdeithasol

C27a *Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd:* **Ar gyfer busnesau: A ydych wedi cofrestru ar y Gronfa Ddata Cyfleuster Cynhyrchu?**
*Cofrestru fel cwmni ar gronfa ddata* ***Cyflenwr Cynhyrchu Sgrin Cymru***

Do
Na

C27b *Gweithwyr Llawrydd:* **Ar gyfer gweithwyr llawrydd: A ydych wedi cofrestru ar Gronfa Ddata Sgrin Cymru?**
***Criw Llawrydd*** *Sgrin Cymru (mae angen profiad proffesiynol blaenorol o weithio ym maes Ffilm/Teledu)*

Do
Na

# Tablau fesul rhanbarth a sector

## Proffiliau fesul rhanbarth

| | | Rhanbarth | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Statws cyflogaeth** | **Cyfanswm** | **Gogledd** | **Canolbarth** | **De-ddwyrain** | **De-orllewin** |
| **Rwy'n hunangyflogedig** | **209 (26%)** | 31 (24%) | 18 (25%) | 119 (25%) | 41 (3%) |
| **Rwy'n weithiwr llawrydd** | **100 (12%)** | 12 (9%) | 5 (7%) | 67 (14%) | 16 (12%) |
| **Rwy'n gweithio i'r cwmni ar hyn o bryd** | **157 (19%)** | 21 (16%) | 14 (19%) | 100 (21%) | 22 (16%) |
| **Gweithiwr/ cyfarwyddwr/ perchennog** | **342 (42%)** | 65 (5%) | 36 (49%) | 184 (39%) | 57 (42%) |

| | | Rhanbarth | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Busnes yn dechrau masnachu** | **Cyfanswm** | **Gogledd** | **Canolbarth** | **De-ddwyrain** | **De-orllewin** |
| **Yn y 2 flynedd ddiwethaf** | **49 (6%)** | 12 (9%) | - | 29 (6%) | 8 (6%) |
| **2-5 mlynedd yn ôl** | **72 (9%)** | 16 (12%) | 5 (7%) | 43 (9%) | 8 (6%) |
| **6-10 mlynedd yn ôl** | **98 (12%)** | 14 (11%) | 5 (7%) | 64 (14%) | 15 (11%) |
| **Mwy na 10 mlynedd yn ôl** | **589 (73%)** | 87 (67%) | 63 (86%) | 334 (71%) | 105 (77%) |

| | | Rhanbarth | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Statws cyfreithiol y busnes** | **Cyfanswm** | **Gogledd** | **Canolbarth** | **De-ddwyrain** | **De-orllewin** |
| **Perchnogaeth/ masnachwr unigol** | **284 (35%)** | 38 (29%) | 22 (3%) | 159 (34%) | 65 (48%) |
| **Cwmni cyfyngedig preifat, cyfyngedig drwy gyfranddaliadau (%CYF)** | **316 (39%)** | 53 (41%) | 22 (3%) | 198 (42%) | 43 (32%) |
| **Cwmni cyfyngedig drwy warant** | **33 (4%)** | 6 (5%) | 6 (8%) | 20 (4%) | 1 (1%) |
| **Partneriaeth** | **39 (5%)** | 12 (9%) | 8 (11%) | 9 (2%) | 10 (7%) |
| **Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig** | **58 (7%)** | 12 (9%) | 6 (8%) | 34 (7%) | 6 (4%) |
| **Sefydliadau Corfforedig Elusennol** | **33 (4%)** | 6 (5%) | 3 (4%) | 19 (4%) | 5 (4%) |
| **Eraill** | **45 (6%)** | 2 (2%) | 6 (8%) | 31 (7%) | 6 (4%) |

| | | Rhanbarth | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ethnigrwydd yr ymatebwr** | **Cyfanswm x** | **Gogledd** | **Canolbarth** | **De-ddwyrain** | **De-orllewin** |
| **Gwyn** | **741 (92%)** | 127 (98%) | 66 (9%) | 422 (9%) | 126 (93%) |
| **Asiaidd / Asiaidd Prydeinig** | **10 (1%)** | - | 2 (3%) | 8 (2%) | - |
| **Du / Du Prydeinig** | **6 (1%)** | - | 1 (1%) | 5 (1%) | - |
| **Cymysg / Sawl grŵp ethnig** | **20 (2%)** | - | - | 15 (3%) | 5 (4%) |
| **Eraill** | **9 (1%)** | - | - | 8 (2%) | 1 (1%) |
| **Gwrthod ateb** | **22 (3%)** | 2 (2%) | 4 (5%) | 12 (3%) | 4 (3%) |

## Proffiliau fesul sector

| Statws cyflogaeth | Cyfanswm | Sector: Cerddoriaeth | Sgrin | Digidol | Cyhoeddi |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n hunangyflogedig | **209 (26%)** | 53 (4%) | 66 (24%) | 51 (24%) | 39 (21%) |
| Rwy'n weithiwr llawrydd | **100 (12%)** | 10 (8%) | 66 (24%) | 15 (7%) | 9 (5%) |
| Rwy'n gweithio i'r cwmni ar hyn o bryd | **157 (19%)** | 19 (14%) | 38 (14%) | 50 (23%) | 50 (27%) |
| Gweithiwr/ cyfarwyddwr/ perchennog | **342 (42%)** | 51 (38%) | 109 (39%) | 98 (46%) | 84 (46%) |

| Busnes yn dechrau masnachu | Cyfanswm | Sector: Cerddoriaeth | Sgrin | Digidol | Cyhoeddi |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn y 2 flynedd ddiwethaf | **49 (6%)** | 4 (3%) | 23 (8%) | 15 (7%) | 7 (4%) |
| 2-5 mlynedd yn ôl | **72 (9%)** | 13 (1%) | 27 (1%) | 19 (9%) | 13 (7%) |
| 6-10 mlynedd yn ôl | **98 (12%)** | 18 (14%) | 37 (13%) | 33 (15%) | 10 (5%) |
| Mwy na 10 mlynedd yn ôl | **589 (73%)** | 98 (74%) | 192 (69%) | 147 (69%) | 152 (84%) |

| Statws cyfreithiol y busnes | Cyfanswm | Sector: Cerddoriaeth | Sgrin | Digidol | Cyhoeddi |
|---|---|---|---|---|---|
| Perchnogaeth/ masnachwr unigol | **284 (35%)** | 56 (42%) | 117 (42%) | 55 (26%) | 56 (31%) |
| Cwmni cyfyngedig preifat, cyfyngedig drwy gyfranddaliadau (LTD%) | **316 (39%)** | 33 (25%) | 97 (35%) | 119 (56%) | 67 (37%) |
| Cwmni preifat cyfyngedig drwy warant | **33 (4%)** | 6 (5%) | 12 (4%) | 10 (5%) | 5 (3%) |
| Partneriaeth | **39 (5%)** | 7 (5%) | 9 (3%) | 8 (4%) | 15 (8%) |
| Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig | **58 (7%)** | 7 (5%) | 18 (6%) | 9 (4%) | 24 (13%) |
| Sefydliadau Corfforedig Elusennol | **33 (4%)** | 13 (1%) | 9 (3%) | 3 (1%) | 8 (4%) |
| Eraill | **4 (6%)** | 11 (8%) | 17 (6%) | 10 (5%) | 7 (4%) |

| Ethnigrwydd yr ymatebwr | Cyfanswm | Sector: Cerddoriaeth | Sgrin | Digidol | Cyhoeddi |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | **741 (92%)** | 122 (92%) | 249 (89%) | 198 (93%) | 172 (95%) |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | **10 (1%)** | 1 (1%) | 5 (2%) | 2 (1%) | 2 (1%) |
| Du / Du Prydeinig | **6 (1%)** | - | 4 (1%) | 1% | 1 (1%) |
| Cymysg / Sawl grŵp ethnig | **20 (2%)** | 7 (5%) | 8 (3%) | 5 (2%) | - |
| Eraill | **9 (1%)** | 2 (2%) | 4 (1%) | 2 (1%) | 1 (1%) |
| Gwrthod ateb | **22 (3%)** | 1 (1%) | 9 (3%) | 6 (3%) | 6 (3%) |